

## Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965

### Rheolau

#### Ynni Anafon Energy Cyfyngedig

---

#### ENW

1. Enw'r gymdeithas fydd Ynni Anafon Energy Cyfyngedig.

#### SWYDDFA GOFRESTREDIG

2. Swyddfa gofrestredig y gymdeithas fydd Yr Hen Felin, Abergwyngregyn, Llanfairfechan, Gwynedd, LL33 0LP

#### DEHONGLIADAU

3. Yn y rheolau hyn:

Ystyr "**Cyfeiriad**" yw cyfeiriad post neu, at ddibenion cyfathrebu electronig, rhif ffacs, cyfeiriad e-bost neu rif ffôn i gael negeseuon testun;

Mae "**y Ddeddf**" yn cyfeirio at Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 neu unrhyw Ddeddf neu Ddeddfau sy'n ei diwygio neu'n cymryd ei lle neu eu lle ar gyfer hyd y cyfnod pan fydd ar waith;

Ystyr "**Archwiliwr**" yw person sy'n gymwys i gael ei benodi'n archwiliwr cwmni yn ôl adran 25 Deddf Cwmnïau 1989;

Ystyr "**Bwrdd y Cyfarwyddwyr**" neu "**Bwrdd**" yw'r holl bersonau hynny a benodir i gyflawni dyletswyddau cyfarwyddwyr y gymdeithas;

Mae "**Cyfarfod y Bwrdd**" yn cynnwys, ac eithrio lle bo'n anghyson ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, cyfarfod corfforol, cyfarfod trwy ddulliau electronig a chyfarfod dros y ffôn;

Nid yw "**Diwrnodau Clir**" o ran cyfnod hysbysiad yn cynnwys diwrnod cynnal y cyfarfod a diwrnod rhoi hysbysiad i rywun neu ei adael yn ei Gyfeiriad, na'r diwrnod y caiff yr hysbysiad ei anfon, y mae yn y broses o gael ei anfon ac y cymerir ei fod wedi'i ddanfon;

Ystyr "**Cyfarwyddwr**" yw cyfarwyddwr y gymdeithas, ac mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n cyflawni swydd cyfarwyddwr, o dan ba bynnag deitl;

Mae "**Dogfen**" yn cynnwys, oni nodir fel arall, unrhyw ddogfen a anfonir neu a ddarperir trwy ddulliau electronig;

Bydd "**Dulliau Electronig**" yn cynnwys, er enghraifft, e-byst, cysylltiadau fideo a thrafodion gwefan diogel dilys;

Ystyr "**Gweithiwr**" yw unrhyw un sydd â contract cyflogaeth gyda'r Gymdeithas;

Ystyr "**Cynnig Eithriadol**" yw'r penderfyniadau hynny sy'n gofyn am Gynnig Eithriadol yn unol â hwnnw a fanylir o dan 'Cynigion' yn y rheolau hyn, oni y mynnir fel arall gan y cyd-destun;

Ystyr "**Aelod Sefydlu**" yw tanysgrifiwr i'r rheolau hyn at ddibenion cofrestru;

Rhoddir ystyr "**Aelod**" yn yr adran 'Aelodaeth' yn y rheolau hyn;

Ystyr "**Deiliad Swydd**" yw derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, diddymwr, diddymwr dros dro neu weinyddwr o Aelod o holl asedau'r Aelodau neu ran sylweddol ohonynt;

Rhoddir ystyr "**Swyddog**" yn yr adran 'Swyddogion' yn y rheolau hyn;

Ystyr "**Person**" yw person naturiol, corff anghorfforedig, cwmni, partneriaeth, corff corfforaethol neu enwebai corff anghorfforedig, cwmni, partneriaeth neu gorff corfforaethol, oni y mynnir fel arall gan y cyd-destun;

Ystyr "**Cofrestrydd**" yw'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol neu unrhyw gorff olynol yn ei swyddogaeth;

Rhoddir ystyr "**Rheoliadau**" yn yr adran 'Rheoliadau' yn y rheolau hyn;

Ystyr "**Rheolau**" yw'r Rheolau hyn;

Ystyr "**Ysgrifennydd**" yw unrhyw berson a benodir i gyflawni dyletswyddau Ysgrifennydd y gymdeithas;

Ystyr "**Cymdeithas**" yw'r gymdeithas a enwir uchod;

Ystyr "**Trosglwyddadwy**" yw cyfranddaliadau y gellir eu trosglwyddo i Berson arall sydd hefyd yn gymwys am aelodaeth y Gymdeithas yn unol â'r Rheolau hyn;

Ystyr "**Gallu Codi**" yw cyfranddaliadau sydd â'r hawl cysylltiedig i'r Aelod dynnu nôl a chael gwerth y cyfranddaliadau'n ôl gan y Gymdeithas;

Ystyr "**Ysgrifenedig**" yw cynrychiolaeth neu atgynhyrchiad geiriau, symbolau neu wybodaeth arall mewn ffurf weladwy trwy unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau, boed wedi'i anfon neu ei ddarparu trwy Ddulliau Electronig neu fel arall.

## **AMCANION**

4. Amcanion y Gymdeithas fydd cyflawni unrhyw fusnes er budd y gymuned trwy:
  - (a) Ddatblygu a chynnal prosiectau ynni adnewyddadwy
  - (b) Cefnogi gweithgareddau Abergwyngregyn Regeneration Company Limited (rhif cofrestredig 4619392) neu ei olynydd mewn enw a theitl.

5. Bydd y Gymdeithas yn eiddo i'w Haelodau ac yn cael ei rheoli ganddynt yn deg ac yn gyfiawn.

### **GRYMOEDD**

6. Gall y Gymdeithas wneud unrhyw beth cyfreithlon a allai ddatblygu amcanion y Gymdeithas ac yn benodol, gall fenthyg neu godi arian at unrhyw ddiben sydd o fudd i'r Gymdeithas.

### **BENTHYCA**

7. Bydd gan y Gymdeithas y grym i fenthyg arian gan ei Haelodau ac eraill er mwyn datblygu ei hamcanion ar yr amod na fydd y swm sy'n ddyledus yn fwy na £10,000,000 ar unrhyw adeg.
8. Bydd gan y Gymdeithas y grym i forgeisio neu godi ar unrhyw eiddo, gan gynnwys asedau ac ymrwymadau'r Gymdeithas, presennol a dyfodol, ac i roi stoc benthyciadau, dyledebion a sicrwydd arall ar gyfer arian a fenthycwyd neu er mwyn cyflawni unrhyw gontractau'r Gymdeithas neu ei chwsmeriaid neu Bersonau sydd â thrafodaethau â'r Gymdeithas.
9. Ni fydd y gyfradd llog ar arian benthycy, ac eithrio ar arian a fenthycir trwy fenthyciad banc neu orddrafft neu o dŷ cyllido neu ar forgais gan gymdeithas adeiladu neu awdurdod lleol, yn fwy na 5% y flwyddyn neu 2% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc y Co-operative ar ddechrau'r benthyciad, pa un bynnag yw'r fwyaf.
10. Gall y Gymdeithas gael rhoddion neu fenthyciadau heb log gan unrhyw Berson er mwyn datblygu ei hamcanion ond ni fydd yn cael arian ar ernes.

### **GWEITHGARWCH DEDDF GWASANAETHAU A MARCHNADOEDD ARIANNOL 2000**

11. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Gymdeithas yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch yn enw unrhyw rai o'r Rheolau hyn a fyddai'n gofyn am ganiatâd gan y Cofrestrydd i gynnal y gweithgarwch hwnnw heb geisio a chael y caniatâd yn gyntaf.

### **BUDDSODDI ARIAN**

12. Gall y Gymdeithas fuddsoddi unrhyw ran o'i chronfa arian yn y ffordd y manylir yn Adran 31 y Ddeddf.

### **AELODAU**

13. Aelodau cyntaf y Gymdeithas fydd yr Aelodau Sefydlu.

Gall y Bwrdd ddewis caniatáu aelodaeth i unrhyw unigolyn, corff corfforaethol neu enwebai corff anghorfforedig, cwmni neu bartneriaeth sy'n cefnogi amcanion y Gymdeithas ac sydd wedi talu neu gytuno i dalu unrhyw danysgrifiad neu swm dyledus arall o ran aelodaeth ar gyfer y cyfnod mewn grym. Bydd dau ddsbarth o aelodaeth i'r Gymdeithas:

- (a) Bydd aelodau Dosbarth A yn byw neu wedi'u lleoli yn yr ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Abergwyngregyn.

- (b) Bydd aelodau Dosbarth B yn byw neu wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Abergwyngregyn.

Os oes dadlau ynghylch a yw aelod yn byw neu wedi'i lleoli yn yr ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Abergwyngregyn, bydd y Cyfarwyddwyr yn dyrannu'r aelod i ddsbarth aelodau yn ôl eu dewis.

### **Ceisiadau Aelodaeth**

14. Ni chaiff unrhyw berson naturiol fod yn aelod o'r Gymdeithas oni bai eu bod dros 16 oed. Mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno dod yn Aelod gefnogi amcanion y Gymdeithas a llenwi cais am aelodaeth a fydd yn cynnwys cais am o leiaf un cyfranddaliad yn y Gymdeithas. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo ffurflen gais o'r fath ac mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo pob cais am aelodaeth.
15. Bydd corff corfforaethol sy'n Aelod trwy gynnig ei gorff llywodraethu yn penodi cynrychiolydd a allai yn ystod cyfnod ei b/phenodiad gael yr hawl i weithredu pob hawl a grym y byddai'r corff corfforaethol yn eu gweithredu pe bai'n berson unigol. Bydd pob corff corfforaethol o'r fath sy'n Aelod yn cyflwyno hysbysiad Ysgrifenedig i'r Gymdeithas o'i ddewis o gynrychiolydd.

### **Ymrwymiad Aelodau**

16. Mae'r holl Aelodau'n cytuno i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyffredinol ac i ymddiddori yng ngweithrediad a datblygiad y Gymdeithas a'i busnes. Mae dyletswydd ar Aelodau i barchu natur gyfrinachol penderfyniadau busnes y Gymdeithas.

### **Terfynu Aelodaeth**

17. Bydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Gymdeithas yn syth pan fydd yn:
- (a) Methu â dal y cyfranddaliad lleiaf; neu'n
  - (b) Methu â thalu'r tanysgrifiad blynyddol (os oes un) ymhen 3 mis o'r dyddiad talu disgwylidig; neu'n
  - (c) Ymddiswyddo'n Ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd; neu'n
  - (d) Cael ei ddiarddel o'r aelodaeth yn unol â'r Rheolau hyn; neu'n
  - (e) Marw, neu mae'r cwmni'n dod i derfyn neu'n cael ei ddiddymu.

### **Diarddel o'r Aelodaeth**

18. Gellir diarddel Aelod am ymddygiad sy'n groes i'r Gymdeithas trwy Gynnig Eithriadol ar yr amod bod sail y diarddel wedi'i nodi yn yr hysbysiadau sy'n galw'r cyfarfod a bod yr Aelod yr ystyrir ei ddiarddel yn cael cyfle i siarad yn y cyfarfod neu, os yw'r Aelod yn dewis, bod cyfle gan unigolyn sy'n ei gynrychioli (nad oes angen iddo fod yn Aelod o'r Gymdeithas) i siarad yn y cyfarfod cyffredinol.

19. Os nad yw'r Aelod yn bresennol yn y cyfarfod ar ôl cael digon o rybudd, gall y cyfarfod barhau yn absenoldeb yr Aelod.
- (a) Bydd Aelod sydd wedi'i ddiarddel yn cael gwerth enwol y cyfranddaliadau sydd ganddo adeg ei ddiarddel;
  - (b) Ni chaiff unrhyw Aelod a gaiff ei ddiarddel o'r aelodaeth ei ailsefydlu oni bai drwy Gynnig Eithriadol.

### **Y DREFN ADEG MARWOLAETH NEU FETHDALIAD AELOD**

20. Pan geir cais gan:
- (a) Gynrychiolydd personol Aelod marw; neu
  - (b) Ymddiriedolwr methdaliad Aelod sy'n fethdalwr; neu
  - (c) Deiliad Swydd unrhyw eiddo yn y Gymdeithas sy'n perthyn i Aelod o'r fath;
- bydd y Gymdeithas yn trosglwyddo neu'n talu'r eiddo y mae hawl gan y Deiliad Swydd iddo yn unol â chyfarwyddyd y Deiliad Swydd.
21. Gall Aelod yn unol â'r Ddeddf enwebu unrhyw unigolyn neu unigolion i drosglwyddo'i (h)eiddo yn y Gymdeithas iddo/iddi/iddynt adeg marwolaeth yr aelod, ond bydd enwebiad o'r fath dim ond yn berthnasol i raddau'r swm ar gyfer yr amser a ganiateir yn y Ddeddf. Ar ôl cael prawf boddhaol bod Aelod sydd wedi enwebu rhywun wedi marw, bydd y Gymdeithas, yn unol â'r Ddeddf, naill ai'n trosglwyddo neu'n talu gwerth llawn yr eiddo sydd wedi'i gynnwys yn yr enwebiad i'r unigolyn neu'r unigolion a enwebwyd.

### **Cyfalaf Cyfranddaliadau**

22. Bydd gwerth enwol o £1 i'r cyfranddaliadau yn y Gymdeithas. Bydd y cyfranddaliad lleiaf sy'n ofynnol gan Aelod yn cael ei ddiffinio yn ôl nifer y cyfranddaliadau a bennir gan y Bwrdd i'w talu'n llawn yn amodol ar y Ddeddf, neu yn ôl y gofyn o ran cynnig arbennig o gyfranddaliadau, neu, yn absenoldeb y fath benderfyniad neu ofyniad, yn un cyfranddaliad.
23. Gall Aelod wneud cais am gyfranddaliadau mewn cyfran o'r cyfranddaliadau sy'n llai mewn nifer na'r cyfranddaliad lleiaf, ar yr amod y gall unrhyw Aelod nad yw'n cyflawni'r cyfranddaliad lleiaf ymhen 12 mis o'i daliad cyntaf, yn ôl dewis y Bwrdd, beidio â bod yn Aelod. Bydd unrhyw berson sy'n peidio â bod yn Aelod o dan y rheol hon yn cael gwerth eu cyfranddaliadau ar y dyddiad yr oeddent wedi peidio â bod yn Aelod yn ôl a bydd y cyfranddaliadau perthnasol yn cael eu canslo.
24. Bydd ceisiadau am gyfranddaliadau'n cael eu cyflwyno i Fwrdd y Gymdeithas a fydd yn dyrannu i'r Aelodau, adeg eu mynediad, y cyfranddaliad neu'r cyfranddaliadau y maent wedi ymgeisio amdano/amdanynt, ar yr amod nad yw cyfanswm y cyfranddaliadau a ddyrannir i unrhyw Aelod yn uwch na'r cyfranddaliad uchaf a ganiateir gan y gyfraith. Bydd cyfranddaliadau'n cael eu talu'n llawn adeg eu dyrannu.
25. Os na all Aelod y mae'n ofynnol iddo dynnu'n ôl o aelodaeth yn ôl y Rheolau hyn drosglwyddo'i gyfranddaliadau, a gohiriwyd yr hawl i godi cyfranddaliadau, bydd gwerth enwol y cyfalaf cyfranddaliadau yn cael ei droi'n stoc benthyg ar delerau a gytunir rhwng y Bwrdd a'r Aelod, neu ei gynrychiolydd personol,

ymdiriedolwr methdaliad, neu Ddeiliad Swydd, ar yr amod y bydd y cytundeb yn gofyn am ad-dalu'r benthyciad o fewn cyfnod heb fod yn fwy na thair blynedd.

26. Bydd Gallu Codi ar y cyfranddaliadau yn unol â darpariaethau'r Rheolau hyn yn unig. Ni fydd modd Trosglwyddo cyfranddaliadau ac eithrio:
- (a) adeg marwolaeth neu fethdaliad; neu
  - (b) (yn achos sefydliad neu bartneriaeth anghorfforedig), adeg newid enwebai/enwebeion ac wedyn i'r enwebai/enwebeion newydd yn unig.

### **Codi cyfalaf cyfranddaliadau**

27. Gall Aelodau godi cyfranddaliadau pan roddir tri mis o rybudd i'r Gymdeithas (er y Bwrdd yn unig a all ddewis dychwelyd yr arian a delir amdanynt), ar yr amod:
- (a) Y bydd unrhyw godiad yn cael ei dalu yn y drefn y daw'r rhybuddion i'r Gymdeithas;
  - (b) Ni fydd hawl gan Aelod godi cyfranddaliadau a fyddai'n ei adael â llai na'r cyfranddaliad lleiaf, oni bai ei fod yn bwriadu terfynu ei aelodaeth o'r Gymdeithas;
  - (c) Y gall y Bwrdd hepgor rhybudd gofynnol am godiad a chyfarwyddo taliad heb rybudd neu gyda llai o rybudd fel sy'n briodol iddo;
  - (d) Y Bwrdd yn unig a all ohirio'r hawl i godi boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol a naill ai am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodedig. Bydd y gohiriad yn ymestyn ac yn gymwys i unrhyw rybudd o godiad a gafwyd sydd heb ei dalu pan fydd y Bwrdd yn gohirio'r hawl i godi. Pan fo'r gohiriad am gyfnod penodedig, gall y Bwrdd ymestyn y cyfnod o bryd i'w gilydd;
  - (e) Yn ystod unrhyw gyfnod pan ohiriwyd yr hawl i godi o dan y ddarpariaeth uchod, gall cynrychiolydd personol godi cyfranddaliadau ar ran Aelodau marw, gyda chaniatâd y Bwrdd, pan roddir yr hysbysiad gofynnol i'r Bwrdd;
  - (f) Y swm a delir i'r Aelod adeg codi fydd y swm a dalwyd neu a gredydwyd ar y cyfranddaliadau sydd i gael eu codi, ac eithrio pan fo cyfranddaliadau'n destun gostyngiad mewn gwerth yn unol â'r darpariaethau yn y Rheolau hyn;
  - (g) Bydd llog yn daladwy ar unrhyw gyfranddaliad y rhoddwyd rhybudd o ad-daliad ar ei gyfer hyd at ddyddiad yr ad-daliad.
28. Bydd unrhyw gyfranddaliad a godir yn unol â'r Rheolau hyn yn cael ei ddiddymu.
29. Gall aelodau dynnu'n ôl o'r Gymdeithas trwy godi'u holl gyfranddaliadau yn y Gymdeithas yn unol â'r Rheolau hyn neu, os gohiriwyd yr hawl i godi, trwy ildio'u holl gyfranddaliadau i'r Gymdeithas. Adeg ildio fel hyn, gall y Bwrdd ddewis talu'r swm a dalwyd neu a gredydwyd ar y cyfranddaliadau a ildwyd i'r Aelod sy'n tynnu'n ôl.

30. Gall y Gymdeithas dynnu i ffwrdd swm rhesymol ar gyfer unrhyw gostau gweinyddol yn sgil codi cyfranddaliadau o'r arian sy'n daladwy i Aelod wrth godi'r cyfranddaliadau yn y Gymdeithas.

### **Gostyngiad yng Ngwerth Cyfranddaliadau**

31. Os yw Archwiliwr y Gymdeithas (neu unrhyw gyfrifwyr cymwysedig a benodir gan y Bwrdd i'r diben hwn) yn ardystio ar unrhyw adeg bod cyfanswm dyledion y Gymdeithas a swm ei chyfalaf cyfranddaliadau a roddir yn fwy na'i hasedau, gall y Bwrdd benderfynu (oni bai y tynnwyd y gormodedd yn y cyfamser) rhannu swm neu ran o'r gormodedd hwn ymhlith yr Aelodau mewn cyfrannedd i (ond nid y tu hwnt i) swm gwerth enwol y cyfranddaliadau a dalwyd ac sydd gan bob Aelod. Bydd y dosraniad hwn wedi'i seilio ar werth y cyfranddaliadau a dalwyd ac sydd gan bob Aelod pan fydd busnes yn dod i ben ar ddyddiad y penderfyniad. Bydd gwerth y cyfranddaliadau sydd gan bob Aelod yn gostwng yn briodol at ddiben codi cyfranddaliadau, ar yr amod na fydd gwerth cyfranddaliadau unrhyw Aelod yn gostwng yn is na'r cyfranddaliad lleiaf a nodir yn y Rheolau hyn.

### **Hawlrwym ar Gyfranddaliadau a Hawl Gwneud iawn**

32. Bydd hawlrwym gan y Gymdeithas ar gyfranddaliadau Aelod am unrhyw ddyled sy'n ddyledus iddi gan yr Aelod a gall y Gymdeithas wneud iawn am unrhyw swm sy'n sefyll yng nghredyd yr Aelod yn y Gymdeithas i dalu dyled o'r fath neu tuag at ei thalu.

### **CYFARFODYDD CYFFREDINOL**

33. Bydd y Gymdeithas, ymhen chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, yn cynnal cyfarfod cyffredinol gyda'r Aelodau sef ei chyfarfod cyffredinol blynyddol ac yn nodi hyn yn hysbysiad y cyfarfod.
34. Bydd busnes cyfarfod cyffredinol blynyddol yn cynnwys, lle bo'n briodol:
- (a) Derbyn y cyfrifon a'r fantolen ac adroddiadau'r Bwrdd a'r Archwiliwr (os oes rhai);
  - (b) Penodi Archwiliwr, pe bai gofyn;
  - (c) Ethol y Bwrdd neu ganlyniadau etholiad pe cynhaliwyd yn flaenorol trwy bleidlais bapur;
  - (d) Cymhwysiad elw;
  - (e) Trafodion unrhyw fusnes arall oedd wedi'i gynnwys yn hysbysiad y cyfarfod.

### **Galw Cyfarfod Cyffredinol**

35. Gall yr Ysgrifennydd ar gais Bwrdd y Cyfarwyddwyr alw cyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas. Nodir diben y cyfarfod cyffredinol yn hysbysiad y cyfarfod.
36. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn galw cyfarfod cyffredinol yn dilyn cais wedi'i arwyddo gan un degfed o gyfanswm yr Aelodau, neu 100 o Aelodau, pa un bynnag yw'r lleiaf,

a ddanfoni i swyddfa gofrestrdig y Gymdeithas. Nodir diben y cyfarfod cyffredinol yn y cais am gyfarfod a hysbysiad y cyfarfod. Ni fydd unrhyw fusnes ac eithrio hwnnw a nodir yn hysbysiad y cyfarfod yn cael ei drafod yn y cyfarfod.

37. Os, ymhen mis ar ôl dyddiad cael y cais, nad yw'r Bwrdd wedi trefnu cyfarfod cyffredinol i'w gynnal ymhen chwe wythnos o ddyddiad y cais, gall unrhyw dri Aelod o'r Gymdeithas sy'n gweithredu ar ran llofnodwyr y cais gynnal cyfarfod cyffredinol, a bydd y Gymdeithas yn ad-dalu unrhyw gostau iddynt a godir yn sgil cynnal cyfarfod o'r fath.

### **Hysbysiadau**

38. Bydd y Cyfarwyddwyr yn galw'r cyfarfod cyffredinol blynyddol gan roi 14 Diwrnod Clir o rybudd i'r holl Aelodau. Bydd pob cyfarfod cyffredinol arall yn cael ei gynnal gydag o leiaf 14 Diwrnod Clir o rybudd, ond gellid eu cynnal gyda llai o rybudd pe cytunir ar hynny'n Ysgrifenedig gan 90% o'r Aelodau.
39. Bydd hysbysiadau cyfarfodydd naill ai'n cael eu rhoi i'r Aelodau'n bersonol neu eu hanfon i'w Cyfeiriad neu fel arall, pe cytunir ar hynny gan y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol, gellir dangos hysbysiadau cyfarfodydd cyffredinol yn amlwg yn y swyddfa gofrestrdig ac ymhob lleoliad busnes arall y Gymdeithas y mae mynediad gan Aelodau iddo. Bydd hysbysiadau yn nodi dyddiad, amser a lleoliad cyfarfod, a'r busnes fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwnnw. Ni fydd cyfarfod cyffredinol yn trafod unrhyw fusnes ac eithrio hynny a nodir ar yr hysbysiadau sy'n galw'r cyfarfod.
40. Ystyrir y bydd hysbysiad a anfonir i Gyfeiriad Aelod wedi'i gyflwyno'n briodol ymhen 48 awr o'i anfon. Ni fydd unrhyw achos o Berson sydd â'r hawl i gael hysbysiad yn cael ei hepgor yn ddamweiniol wrth anfon yr hysbysiadau, neu hysbysiad yn methu â chyrraedd unrhyw Berson, yn annilysu trafodion yn y cyfarfod.
41. Bydd pob hysbysiad yn nodi dyddiad, amser a lleoliad cyfarfod ynghyd â natur gyffredinol y busnes fydd yn cael ei drafod ac unrhyw gynigion arfaethedig.
42. Os yw'r Gymdeithas wedi penodi Archwiliwr yn unol â'r Rheolau hyn, bydd hawl ganddynt fynd i gyfarfodydd cyffredinol y Gymdeithas ac i gael pob hysbysiad a gohebiaeth ynghylch unrhyw gyfarfod cyffredinol y mae hawl gan unrhyw Aelod o'r Gymdeithas ei gael. Bydd hawl gan yr Archwiliwr i fynegi barn mewn unrhyw gyfarfod ar unrhyw ran o fusnes y cyfarfod sy'n berthnasol i Archwiliwr.

### **Cworwm**

43. Ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei drafod mewn cyfarfod cyffredinol oni bai fod cworwm o Aelodau'n bresennol a bydd hyn yn cynnwys Aelodau nad ydynt yn bresennol yn gorfforol. Oni chaiff ei ddiwygio gan Gynnig Eithriadol, cworwm fydd 3 Aelod neu 5% o'r aelodaeth, pa un bynnag yw'r mwyaf.

### **Cadeirio Cyfarfodydd Cyffredinol**

44. Bydd cadeirydd y Gymdeithas yn hwyluso cyfarfodydd cyffredinol. Os nad yw ef/hi'n bresennol neu'n fodlon gweithredu pan fydd unrhyw gyfarfod yn parhau i'w fusnes, bydd yr Aelodau presennol yn dewis un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.



### **Presenoldeb a Siarad mewn Cyfarfodydd Cyffredinol**

45. Gall Aelod weithredu'r hawl i siarad mewn cyfarfod cyffredinol ac ystyrir bod y Person hwnnw'n bresennol pan all gyfathrebu â phawb sy'n bresennol yn y cyfarfod. Gall y Cyfarwyddwyr wneud unrhyw drefniadau maent yn ystyried yn briodol er mwyn galluogi'r rheini sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol i weithredu eu hawliau i siarad neu bleidleisio gan gynnwys trwy Ddulliau Electronig. Wrth bennu presenoldeb mewn cyfarfod cyffredinol, nid oes ots a yw unrhyw ddau neu fwy o'r Aelodau presennol yn yr un lle, ar yr amod y gallant gyfathrebu â'i gilydd.
46. Gall cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i bobl eraill nad ydynt yn Aelodau'r Gymdeithas i fynd i gyfarfodydd cyffredinol a siarad, heb roi hawliau pleidleisio iddynt.

### **Gohirio**

47. Os nad oes cworwm yn bresennol ymhen hanner awr o amser dechrau'r cyfarfod cyffredinol, neu os yw'r cworwm yn peidio â bod ar gael mewn cyfarfod, mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod. Os nad oes cworwm yn bresennol ymhen hanner awr o amser dechrau'r cyfarfod a ohiriwyd, bydd yr Aelodau presennol yn ffurfio cworwm.
48. Gall cadeirydd cyfarfod cyffredinol ohirio'r cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol os:
  - (a) Yw'r cyfarfod yn cytuno i'r gohiriad hwnnw; neu os
  - (b) Yw'r cadeirydd yn gweld bod angen gohirio er mwyn amddiffyn diogelwch unrhyw bersonau presennol yn y cyfarfod neu er mwyn sicrhau y trafodir busnes y cyfarfod yn drefnus.
49. Mae'n rhaid i'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod os yw'r cyfarfod yn cyfarwyddo hynny.
50. Wrth ohirio cyfarfod mae'n rhaid i'r cadeirydd nodi'r dyddiad, amser a lleoliad y daw'r gohiriad i ben neu a fydd y cyfarfod yn parhau ar ddyddiad, amser a lleoliad i'w bennu gan y Cyfarwyddwyr.
51. Os caiff y cyfarfod ei ohirio am 14 diwrnod neu fwy, bydd o leiaf 7 Diwrnod Clir o hysbysiad o'r cyfarfod a ohiriwyd yn cael ei roi yn yr un ffordd â hysbysiad y cyfarfod gwreiddiol.
52. Ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei drafod mewn cyfarfod a ohiriwyd ac eithrio'r busnes nad oedd modd ei drafod yn gywir yn y cyfarfod gwreiddiol pe na bai'r gohiriad wedi digwydd.

### **Pleidleisio**

53. Bydd cynnig sy'n mynd i bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol yn cael ei benderfynu trwy godi dwylo oni y mynnir pleidlais bapur yn unol â'r Rheolau hyn. Bydd datganiad gan y cadeirydd y cariwyd neu y methwyd cynnig ar sail codi dwylo a chofnod yn nodi hynny yng nghofnodion y cyfarfod cyffredinol yn dystiolaeth bendant o'r canlyniad. Nid oes angen cofnodi cyfran neu nifer y pleidleisiau o blaid neu yn erbyn.

54. Os ceir pleidleisiau cyfartal, boed ar sail codi dwylo neu bleidlais bapur, ni fydd y cadeirydd yn cael ail bleidlais neu bleidlais fwrw a bydd y cynnig wedi methu.

### **Pleidlais Bapur**

55. Gellir galw am bleidlais bapur ar gynnig cyn neu wrth gyhoeddi canlyniad codi dwylo gan dri Aelod mewn cyfarfod cyffredinol.
56. Os gelwir am bleidlais bapur, caiff y bleidlais ei chynnal yn ôl cyfarwyddyd y cadeirydd, ar yr amod na fydd unrhyw Aelod yn cael mwy nag un bleidlais a chanlyniad y bleidlais fydd penderfyniad y cyfarfod lle y galwyd y bleidlais.
57. Ni fydd y galw am bleidlais bapur yn atal parhad cyfarfod er mwyn trafod unrhyw fusnes arall ac eithrio'r cwestiwn sy'n destun y bleidlais a alwyd. Gellir tynnu'n ôl y galw am bleidlais bapur.

### **Cynigion**

58. Gwneir penderfyniadau mewn cyfarfodydd cyffredinol trwy basio cynigion:
- (a) Mae'n rhaid cyrraedd y penderfyniadau canlynol trwy Gynnig Eithriadol:
- (i) Penderfyniadau i ddiarddel Aelodau;
  - (ii) Unrhyw addasiadau i Reolau'r Gymdeithas, yn amodol bob tro ar reoliad 7 Rheoliadau Cymdeithasau Budd i'r Gymuned (Cyfyngiad ar ddefnydd Asedau) 2006, sydd golygu na ellir addasu'r rheol 'Cymhwysiad Elw' wrth ymdrin â'r cyfyngiad ar ddefnyddio asedau.
  - (iii) Y penderfyniad i ddirwyn y Gymdeithas i ben.
- (b) Bydd pob penderfyniad arall yn cael ei wneud gan gynnig arferol.
59. Mae Cynnig Eithriadol yn un a gaiff ei basio gan fwyafrif o 75% ar y lleiaf o'r pleidleisiau a gafwyd mewn cyfarfod cyffredinol ac mae penderfyniad arferol yn un a gaiff ei basio gan fwyafrif syml (51%) o'r pleidleisiau a gafwyd.
60. Gellir pasio Cynigion mewn cyfarfodydd cyffredinol neu drwy gynnig ysgrifenedig. Gall cynnig ysgrifenedig gynnwys sawl Dogfen unfath wedi'u llofnodi gan un neu fwy o Aelodau.

### **CYFARWYDDWYR**

61. *Bydd gan y Gymdeithas Fwrdd y Cyfarwyddwyr o dri Chyfarwyddwr ar y lleiaf a naw Cyfarwyddwr ar y mwyaf oni phenodir Cyfarwyddwyr ychwanegol o dan Reol 66.*
62. Bydd Cyfarwyddwyr cyntaf y Gymdeithas o'r cofrestru i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf yn cael eu penodi gan yr Aelodau Sefydlu.
63. Personau yn y Gymdeithas sy'n 18 oed a hŷn yn unig gaiff wasanaethu ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

### **Cyfansoddiad y Bwrdd**

64. Bydd cyfansoddiad y Bwrdd fel a ganlyn:
- (a) Hyd at bedwar Cyfarwyddwr wedi'u hethol gan ac o blith Aelodau Dosbarth A y Gymdeithas;
  - (b) Hyd at dri Chyfarwyddwr wedi'u hethol gan ac o blith Aelodau Dosbarth B y Gymdeithas;
  - (c) Hyd at ddau Gyfarwyddwr yn gynrychiolydd/cynrychiolwyr wedi'u penodi/enwebu gan Abergwyngregyn Regeneration Company Limited (rhif cofrestredig 4619392) neu unrhyw gorff olynol yn ei swyddogaeth.

### **Cylch Ymddeol**

65. Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf bydd pob Cyfarwyddwr etholedig yn sefyll i lawr. Ymhob cyfarfod cyffredinol blynyddol dilynol bydd un traean o'r Cyfarwyddwyr etholedig, neu'r nifer agosaf at draean os nad yw'r nifer yn lluosrif o dri, yn ymddeol o'u swydd. Y Cyfarwyddwyr a fydd yn ymddeol fydd y rheini fu yn y swydd am yr amser hiraf ers eu hethol ddiwethaf. Pan fo Cyfarwyddwyr wedi bod yn y swydd am yr un hyd, bydd y Cyfarwyddwyr a fydd yn ymddeol yn cael eu pennu ar hap. Bydd Cyfarwyddwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ail-ethol.

### **Cyfethol Cyfarwyddwyr**

66. Yn ogystal, gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr gyfethol hyd at ddau Gyfarwyddwr annibynnol allanol nad oes angen iddynt fod yn Aelodau a gaiff eu dewis am eu sgiliau a/neu brofiad penodol. Bydd y Cyfarwyddwyr annibynnol allanol hyn yn gwasanaethu am gyfnod penodedig a bennir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr adeg eu cyfethol, yn amodol ar adolygiad bob 12 mis o leiaf. Gellir tynnu Cyfarwyddwyr annibynnol allanol o'r swydd ar unrhyw adeg yn ôl cynnig Bwrdd y Cyfarwyddwyr.
67. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr lenwi swydd wag dros dro ar y Bwrdd trwy gyfetholiad. Mae'n rhaid i unigolion cyfetholedig fod yn Aelodau'r Gymdeithas a byddant yn llenwi swydd Cyfarwyddwr hyd nes y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf yn unig.

### **Pwerau a Dyletswyddau Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

68. Bydd busnes y Gymdeithas yn cael ei reoli gan y Bwrdd a all weithredu holl bwerau'r Gymdeithas y gall y Gymdeithas eu gweithredu a'u gwneud ac nad yw'n ofynnol yn statudol neu yn ôl y Rheolau hyn i'r Gymdeithas eu gweithredu na'u gwneud mewn cyfarfod cyffredinol.
69. Bydd pob penderfyniad a wneir mewn cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr neu gan unrhyw berson sy'n gweithredu fel Cyfarwyddwr yn ddilys hyd yn oed pe darganfyddir wedyn y bu rhyw ddiffyg ym mhenodiad y Cyfarwyddwr neu y datgymhwyswyd yr unigolyn hwnnw rhag bod yn Gyfarwyddwr yn flaenorol.
70. Bydd unrhyw siec, nodyn addewidiol, drafftiau, biliau cyfnewid ac offer trafodadwy arall, ac unrhyw dderbynebau ar gyfer arian a dalwyd i'r Gymdeithas yn cael ei arwyddo, ei dynnu, ei dderbyn a'i arnodi, neu ei ddefnyddio fel arall yn ôl cyfarwyddyd y Bwrdd o bryd i'w gilydd.

71. Heb fynd yn groes i'w bwerau cyffredinol, gall y Bwrdd weithredu holl bwerau'r Gymdeithas i fenthyg arian ac i forgeisio neu godi ar ymrwymiadau ac eiddo neu unrhyw ran ohono ac i roi dyledebion a sicrwydd arall boed yn syth neu fel sicrwydd ar gyfer unrhyw ddyled, atebolrwydd neu ymrwymiad y Gymdeithas neu unrhyw drydydd parti.
72. Ni fydd unrhyw Reoliad a wneir gan y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol yn annilysu unrhyw weithred flaenorol y Bwrdd a fyddai wedi bod yn ddilys pa na wnaed y Rheoliad hwnnw.

### **Dirprwyo**

73. Yn amodol ar y Rheolau hyn, gall y Cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw bwerau a roddir iddynt yn ôl y Rheolau hyn i unrhyw Berson neu bwyllgor sy'n cynnwys Aelodau'r Gymdeithas, trwy unrhyw ddull, i ba bynnag raddau, ar unrhyw faterion neu ar unrhyw delerau ac amodau yr ystyrir yn briodol.
74. Gall y Cyfarwyddwyr nodi y gall unrhyw ddirprwyaeth awdurdodi dirprwyaeth bellach o'r pwerau gan unrhyw Berson y dirprwyir iddynt.
75. Gall y Cyfarwyddwyr ddirymu unrhyw ddirprwyaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol neu addasu unrhyw delerau ac amodau.

### **Is-bwyllgorau**

76. Mae'n rhaid i is-bwyllgor y mae'r Cyfarwyddwyr yn dirprwyo'u pwerau iddo ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u seilio cyhyd ag y bo'n berthnasol ar y darpariaethau hynny yn y Rheolau hyn sy'n llywio penderfyniadau'r Cyfarwyddwyr.
77. Gall y Cyfarwyddwyr wneud Rheoliadau ar gyfer pob un neu unrhyw is-bwyllgor, ar yr amod nad yw'r Rheoliadau hynny'n anghyson â'r Rheolau hyn.
78. Mae'n rhaid i unrhyw weithgarwch a thrafodion unrhyw is-bwyllgor gael eu hadrodd i'r Cyfarwyddwyr yn llawn ac yn brydlon.

## **Y DREFN AR GYFER BWRDD Y CYFARWYDDWYR**

### **Galw Cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

79. Gall unrhyw Gyfarwyddwr alw cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr, a bydd yr Ysgrifennydd yn gwneud hyn ar gais Cyfarwyddwr, gan roi rhybudd rhesymol o'r cyfarfod i bob Cyfarwyddwr. Mae'n rhaid i hysbysiad unrhyw gyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwr nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ac, os na fydd y Cyfarwyddwyr yn y cyfarfod yn yr un lle, sut y byddant yn cyfathrebu â'i gilydd.

### **Trefn Cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

80. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr gwrdd i drafod busnes, gohirio a rheoleiddio'u cyfarfodydd fel arall fel yr ystyrir yn briodol.
81. Gall Cyfarwyddwr weithredu'r hawl i siarad mewn cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac ystyrir ei fod yn bresennol pan all y person hwnnw gyfathrebu â phawb sydd yn y cyfarfod. Gall y Cyfarwyddwyr wneud unrhyw drefniadau maent yn eu hystyried yn briodol er mwyn galluogi'r rheini sy'n bresennol mewn cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr i weithredu eu hawliau i siarad neu bleidleisio gan gynnwys trwy Ddulliau Electronig.

Wrth bennu presenoldeb mewn cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr, nid oes ots a oes dau neu fwy o Gyfarwyddwyr yn yr un lle â'i gilydd.

82. Bydd cwestiynau a godir mewn unrhyw gyfarfod y Bwrdd yn cael eu penderfynu gan fwyafrif y pleidleisiau. Yn achos nifer gyfartal o bleidleisiau bydd y status quo yn parhau a gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr ddewis cyfeirio'r mater i gyfarfod cyffredinol y Gymdeithas.
83. Bydd cynnig ysgrifenedig a ddosberthir i'r holl Gyfarwyddwyr a'i lofnodi gan fwyafrif syml (51%) o'r Cyfarwyddwyr, yn ddilys ac yn weithredol fel petai wedi'i basio mewn cyfarfod o'r Bwrdd a alwyd ac a gynhaliwyd yn gywir. Gall cynnig ysgrifenedig gynnwys sawl Dogfen unfath wedi'u llofnodi gan un neu fwy o'r Cyfarwyddwyr.
84. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr ddewis gwahodd personau eraill i'w gyfarfodydd gyda neu heb hawliau siarad, a heb hawliau pleidleisio. Ni fydd y personau hyn yn cyfrif tuag at y cworwm.

### **Cworwm**

85. Y cworwm sydd ei angen i drafod busnes mewn cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr fydd 50% o'r Cyfarwyddwyr neu 3 Chyfarwyddwr, pa un bynnag yw'r mwyaf, a bydd yn cynnwys y Cyfarwyddwyr hynny nad ydynt yn bresennol yn gorfforol.
86. Os ar unrhyw adeg bydd cyfanswm y Cyfarwyddwyr mewn swydd yn llai na'r cworwm gofynnol, ni all y Cyfarwyddwyr wneud unrhyw benderfyniadau ac eithrio penodi Cyfarwyddwyr eraill neu alw cyfarfod cyffredinol er mwyn galluogi'r Aelodau i benodi Cyfarwyddwyr eraill.

### **Cadeirio Cyfarfodydd y Bwrdd**

87. Bydd y cadeirydd yn hwyluso cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Os nad yw ef/hi'n bresennol neu'n fodlon gweithredu pan fydd unrhyw gyfarfod yn parhau i'w fusnes, bydd y Cyfarwyddwyr presennol yn dewis un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

### **Datganiad o Fudd**

88. Bydd Cyfarwyddwr yn datgan budd mewn unrhyw gontract neu fater y mae ganddo/ganddi fudd personol, materol neu ariannol ynddo, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac ni fydd yn pleidleisio ar y contract neu'r mater, ar yr amod na fydd unrhyw beth yn atal Cyfarwyddwr rhag pleidleisio o ran ei d/thelerau ac amodau cyflogaeth neu unrhyw fater cysylltiedig.

### **Costau**

89. Gall y Gymdeithas dalu costau rhesymol y mae'r Cyfarwyddwyr yn eu codi'n gywir mewn cysylltiad â'u presenoldeb mewn cyfarfodydd neu fel arall mewn cysylltiad â gweithredu eu pwerau a chyflawni eu cyfrifoldebau o ran y Gymdeithas.

### **Terfynu Penodiad Cyfarwyddwr**

90. Mae person yn peidio â bod yn Gyfarwyddwr y Gymdeithas unwaith y:

- (a) Tynnir y person hwnnw o'r swydd trwy gynnig Bwrdd y Cyfarwyddwyr, pan fo'r person yn Gyfarwyddwr cyfetholedig a benodwyd oherwydd ei sgiliau a/neu brofiad penodol;
- (b) Caiff ardystiad y person ei ddileu gan y sefydliad mae'n ei gynrychioli;
- (c) Mae'r sefydliad y mae'r person yn ei gynrychioli yn peidio â bodoli;
- (d) Mae'r person hwnnw'n cyflwyno ymddiswyddiad Ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Gymdeithas, ac y gweithredwyd yr ymddiswyddiad hwnnw yn unol â'i delerau;
- (e) Tynnir y person hwnnw o'r swydd trwy gynnig arferol y Gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol, pan nodwyd y byddai hynny'n cael ei drafod yn hysbysiad y cyfarfod;
- (f) Gwaherddir y person hwnnw gan y gyfraith rhag bod yn Gyfarwyddwr;
- (g) Cyflwynir gorchymyn methdaliad yn erbyn y person hwnnw;
- (h) Cyflwynir barn ysgrifenedig i'r Gymdeithas gan feddyg cofrestredig yn datgan nad yw'r gallu meddyliol gan y person bellach i weithredu fel Cyfarwyddwr ac y gallai barhau felly am fwy na thri mis;
- (i) O ganlyniad i iechyd meddwl y person hwnnw, mae llys yn cyflwyno gorchymyn sy'n atal y person hwnnw'n gyfan gwbl neu'n rhannol rhag gweithredu unrhyw bwerau neu hawliau a fyddai gan y person hwnnw fel arall.

## **SWYDDOGION**

91. Bydd y Bwrdd yn ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd o blith ei niferoedd ac unrhyw Swyddogion eraill maent yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd. Bydd gan y Swyddogion hyn ddyletswyddau a hawliau a roddir iddynt gan y Bwrdd neu gan y gyfraith a gall y Bwrdd dynnu unrhyw Swyddog a benodir o'r swydd. Bydd Swyddog mewn swydd na chaiff ei ailethol i'r Bwrdd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn parhau yn y swydd hyd nes cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn dilyn y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

## **ANGHYDFOD**

92. Mewn achos anghydfod rhwng y Gymdeithas neu ei Bwrdd ac Aelod neu gyn Aelod o'r Gymdeithas, bydd yr anghydfod yn cael ei gyfeirio at gymrodeddwr annibynnol y mae ei benodiad yn dderbyniol i ddwy ochr yr anghydfod neu pe na cheir cytundeb at rywun a enwebir gan Ysgrifennydd Cyffredinol Co-operatives UK (neu unrhyw rôl neu gorff olynol yn ei swyddogaeth). Bydd penderfyniad y cymrodeddwr yn gyfrwymol. Mewn achos lle na ellir datrys yr anghydfod am ba bynnag reswm trwy ei gyfeirio at gymrodeddwr, gellir cyfeirio'r mater i'r llys sirol (neu i'r siryf yn yr Alban). Mae'n rhaid i unrhyw Berson sy'n cyflwyno anghydfod, pe bai gofyn, roi ernes i'r Gymdeithas am swm rhesymol (heb fod yn fwy na £100) i'w bennu gan y Bwrdd. Bydd y cymrodeddwr yn penderfynu sut y bydd y costau cymrodeddu'n cael eu talu a'r hyn y dylid ei wneud gyda'r ernes.

## **RHEOLIADAU**

93. Gall y Gymdeithas o bryd i'w gilydd mewn cyfarfod cyffredinol, neu gyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr, greu, mabwysiadu ac addasu Rheoliadau o'r fath ar ffurf is-ddeddfau, rheolau sefydlog, rheolau eilaidd neu fel arall sy'n briodol ar gyfer rheoli, gweithredu a rheoleiddio materion y Gymdeithas a thrafodion a phwerau Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac is-bwyllgorau. Bydd Rheoliadau o'r fath (os oes rhai) ar gael i'r Aelodau. Ni fydd Rheoliad yn cael ei wneud sy'n anghyson â'r Rheolau hyn neu'r Ddeddf. Bydd holl Aelodau'r Gymdeithas a Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi'u cyfrwymo gan y Rheoliadau p'un a ydynt wedi cael copi ohonynt ai peidio.

## **CYFRIFOLDEB AELODAU**

94. Mae cyfrifoldeb Aelod wedi'i gyfyngu i swm ei gyfranddaliad.

## **CYMHWYSO ELW**

95. Bydd Aelodau'r Gymdeithas yn cael eu gwobrwo'n bennaf trwy ddifidend cymdeithasol yn hytrach nag un ariannol. Bydd unrhyw elw'r Gymdeithas yn cael ei gymhwysu fel a ganlyn mewn cyfraneddau a thrwy ddulliau a bennir gan y Gymdeithas yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol:
- (a) I gronfa gyffredinol ar gyfer parhad a datblygiad y Gymdeithas;
  - (b) I dalu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau a roddwyd ar gyfradd neu gyfraddau a bennir gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd, ond heb fod yn fwy na 5% y flwyddyn neu 2% yn uwch na chyfradd sylfaenol y Banc y Co-operative, pa un bynnag yw'r mwyaf;
  - (c) I wneud taliad at ddibenion cymdeithasol neu gymunedol yn y gymuned a wasanaethir gan y Gymdeithas.

## **CLOI ASEDAU**

96. Yn sgil rheoliadau a wneir o dan adran 1 Deddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2003 mae holl asedau'r Gymdeithas yn amodol ar gyfyngiad ar eu defnydd. Mae'n rhaid i'r Gymdeithas beidio â defnyddio neu drafod ei asedau ac eithrio:
- (a) Pan fo'r defnydd neu'r trafod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at ddiben sydd o fudd i'r gymuned;
  - (b) I dalu Aelod o'r Gymdeithas werth ei gyfalaf cyfranddaliadau y gall ei godi neu log ar y cyfalaf;
  - (c) I wneud taliad yn sgil adran 24 (trafodion adeg marwolaeth yr enwebydd), 25 (darpariaeth ar gyfer diffyg ewyllys) neu 26 (taliadau o ran personau nad ydynt â gallu meddyliol) o Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965;
  - (d) I wneud taliad yn unol â Rheolau'r Gymdeithas i ymddiriedolwyr eiddo Aelodau sy'n fethdalwyr neu, yn yr Alban, Aelodau yr atafaelwyd eu hystâd;
  - (e) Pan fo'r Gymdeithas i gael ei diddymu neu ei dirwyn i ben, er mwyn talu ei gredydwyr; neu
  - (f) I drosglwyddo ei hasedau i un neu fwy o'r canlynol:

- (i) cymdeithas budd cymunedol rhagnodedig y bu ei hasedau'n amodol ar gyfyngiad ar ddefnydd ac a fydd yn cymhwyso'r cyfyngiad hwnnw i unrhyw asedau a drosglwyddir;
  - (ii) cwmni buddiannau cymunedol;
  - (iii) landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â chyfyngiad ar ddefnydd ei asedau sydd gyfwerth â chyfyngiad ar ddefnydd, ac a fydd yn cymhwyso'r cyfyngiad hwnnw ar unrhyw asedau a drosglwyddir;
  - (iv) elusen (gan gynnwys cymdeithas budd cymunedol sy'n elusen); neu
  - (v) gorff, a sefydlwyd yng Ngogledd Iwerddon neu Dalaith heb fod y Deyrnas Unedig, sydd gyfwerth ag unrhyw un o'r Personau hynny.
- (g) Bydd unrhyw fynegiant a ddefnyddir yn y rheol hon a ddiffinnir at ddibenion rheoliadau a wnaed o dan adran 1 Deddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2003 â'r ystyr a roddir gan y rheoliadau hynny.

#### **UNO, TROSGLWYDDO YMRWYMIADAU A CHYFNEWID**

97. Gall y Gymdeithas, trwy benderfyniad arbennig a gaiff ei basio yn y ffordd ofynnol yn ôl y Ddeddf, uno ag unrhyw gymdeithas neu gorff dielw arall, neu drosglwyddo'i ymrwymadau i gymdeithas neu gorff dielw arall, yn amodol ar o leiaf yr un graddau o gyfyngiad ar ddosrannu elw ac asedau sy'n ofynnol gan y Gymdeithas hon yn y Rheolau hyn. Gall y Gymdeithas hefyd dderbyn trosglwyddiad ymrwymadau ac asedau trwy'r Bwrdd neu gyfarfod cyffredinol.
98. Gall y Gymdeithas, trwy benderfyniad arbennig a gaiff ei basio yn y ffordd ofynnol yn ôl s52 (3) y Ddeddf, uno â chwmni neu drosglwyddo'i hymrwymadau iddo neu gyfnewid ei hun yn gwmni yn unol â darpariaethau'r Ddeddf. O ran galw cyfarfod cyffredinol at ddiben penderfyniad o'r fath, bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys:
- (a) Bydd y Gymdeithas yn rhoi o leiaf dau fis o rybudd i Aelodau am y cyfarfod;
  - (b) Bydd hysbysiad y cyfarfod yn cael ei roi mewn man amlwg yn y swyddfa gofrestrdedig ac ymhob safle masnachu'r Gymdeithas y mae mynediad gan yr Aelodau iddo;
  - (c) Bydd yr hysbysiad yn dod gyda datganiad ar wahân ar gyfer Aelodau'n nodi:
    - (i) y rhesymau dros y cynnig;
    - (ii) a yw Bwrdd y Gymdeithas yn cefnogi'r cynnig;
    - (iii) cynigion eraill a ystyriwyd ac a ydynt yn hyfyw;
    - (iv) manylion am nifer y cyfranddaliadau yn y Gymdeithas sydd gan Aelodau'r Bwrdd, a Phersonau sy'n gysylltiedig â nhw;
    - (v) argymhelliad gan gynghorwyr ariannol annibynnol dibynadwy y dylai Aelodau gefnogi'r cynnig yn hytrach na chynnig arall.



- (d) Pan fo'r datganiad ar wahân wedi'i gynnwys mewn Dogfen arall, bydd gwybodaeth ar gael yn yr hysbysiad yn nodi ymhle y gall Aelodau gael copi o'r Ddogfen.
- (e) Y cworwm ar gyfer cyfarfod lle bydd angen penderfyniad arbennig i uno â chwmmi, trosglwyddo ymrwymiaidau i gwmni neu drosi'n gwmni fydd 150 o Aelodau neu 50% o'r Aelodau sy'n bresennol yn gorfforol, pa un bynnag yw'r lleiaf, yn amodol ar leiafswm eithaf o dri Aelod.

### **DIDDYMIAD**

- 99. Gellir diddymu'r Gymdeithas gyda chaniatâd tri chwarter o'r Aelodau gyda'u llofnodion ar offeryn diddymiad, neu trwy ddirwyn i ben mewn ffordd a ddarperir gan y Ddeddf.
- 100. Os, ar ôl dirwyn i ben neu ddiddymu'r Gymdeithas, y mae unrhyw asedau'n weddill ar ôl ateb dyledion, ni fydd yr asedau hyn yn cael eu dyrannu ymhlith yr aelodau. Yn hytrach byddant yn cael eu trosglwyddo i Glwb Dynion Ifanc Aber (Rhif Elusen: 523670) neu ei olynwyr mewn enw a theitl a phan nad yw hyn yn bosibl, unrhyw gorff neu gyrff dielw eraill yn amodol ar o leiaf yr un graddau o gyfyngiad ar ddosrannu elw ac asedau sy'n ofynnol gan y Gymdeithas hon yn sgil y Rheolau hyn, fel y pennir gan yr aelodau adeg y diddymiad neu ymlaen llaw.

### **TREFNIADAU GWEINYDDOL**

#### **Dulliau Cyfathrebu**

- 101. Gall Aelod roi caniatâd i gael gohebiaeth gan y Gymdeithas trwy Ddulliau Electronig.
- 102. Ystyrir y bydd hysbysiad a anfonir i Gyfeiriad Cyfarwyddwr wedi'i gyflwyno'n briodol ymhen 48 awr o'i anfon. Gall Cyfarwyddwr gytuno â'r Gymdeithas y tybir ei f/bod wedi cael hysbysiaidau neu Ddogfennau a anfonwyd ato/ati mewn ffordd arbennig ymhen amser penodedig oddi ar eu hanfon, ac i'r amser penodedig hwnnw fod yn llai na 48 awr.

#### **Sêl**

- 103. Os oes sêl gan y Gymdeithas, bydd yn cael ei ddefnyddio gydag awdurdod Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unig ar ran y Gymdeithas. Bydd unrhyw offeryn y cysylltir y sêl ag ef yn cael ei lofnodi gan Gyfarwyddwr a'i gydlofnodi gan ail Gyfarwyddwr neu'r Ysgrifennydd.

#### **Cofrestri**

- 104. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn sicrhau y cedwir cofrestri cywir a fydd yn cynnwys cofrestr o Aelodau, cofrestr o Gyfarwyddwyr a chofrestr o Swyddogion.

#### **Cofrestr Aelodau**

105. Bydd y Bwrdd yn sicrhau y cedwir y gofrestr yn unol â'r Ddeddf a bod y manylion gofynnol yn ôl y Ddeddf ar gael i'w harolygu heb angen datgelu manylion eraill a gedwir yn y gofrestr.

### **Cofrestr Cyfarwyddwyr a Swyddogion**

106. Bydd y Gymdeithas yn cadw cofrestr o Gyfarwyddwyr a Swyddogion a fydd yn cynnwys y manylion canlynol:
- (a) Enw'r Cyfarwyddwr;
  - (b) Cyfeiriad y Cyfarwyddwr;
  - (c) Dyddiad dechrau yn y swydd;
  - (d) Dyddiad gadael y swydd; a
  - (e) Swydd y Cyfarwyddwr os yw hefyd yn Swyddog a dyddiad dechrau a gadael y swydd honno.

### **Addasiadau i'r Rheolau**

107. Yn amodol bob tro ar reoliad 7 Rheoliadau Cymdeithasau Budd Cymunedol (Cyfyngiad ar Ddefnydd Asedau) 2006, sy'n golygu na ellir addasu'r rheol 'Cymhwysiad Elw' sy'n ymwneud â chyfyngiad ar ddefnydd asedau, gellir dirymu neu addasu unrhyw un o'r Rheolau hyn neu greu rheol newydd trwy Gynnig Eithriadol mewn cyfarfod cyffredinol pan roddwyd 14 Diwrnod Clir o rybudd a phan fo'r rhybudd hwnnw'n cynnwys manylion y newid(iadau) arfaethedig yn y cyfarfod. Nid yw unrhyw addasiad o'r Rheolau'n ddilys oni chaiff ei gofrestru gan y Cofrestrydd. Wrth gyflwyno addasiadau i'r rheolau i'w cofrestru, gall yr Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd yn unig ddewis derbyn unrhyw addasiadau y gofynnir amdanynt neu a awgrymir gan y Cofrestrydd heb gyfeirio'n ôl i gyfarfod cyffredinol arall gyda'r Gymdeithas.

### **Copïau o Reolau'r Gymdeithas**

108. Bydd copi o'r Rheolau hyn ac unrhyw addasiadau iddynt yn cael ei gyflwyno am ddim i bob Aelod pan fydd yn ymaelodi ac i unrhyw Berson arall ar gais pan delir y ffi statudol sy'n daladwy ar gyfer hyd y cyfnod dan sylw.

### **Cofnodion**

109. Bydd y Gymdeithas yn sicrhau y cedwir cofnodion o holl:
- (a) Drafodion cyfarfodydd cyffredinol y Gymdeithas; a
  - (b) Thrafodion cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'i is-bwyllgorau sy'n cynnwys enwau'r Cyfarwyddwyr presennol, penderfyniadau a wnaed a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

### **Ffurflen Flynyddol**

110. Bob blwyddyn ac yn y cyfnod a ragnodir gan y Ddeddf, bydd yr Ysgrifennydd yn anfon ffurflen flynyddol yn y fformat rhagnodedig i'r Cofrestrydd. Ynghyd â'r ffurflen flynyddol bydd:
- (a) Copi o adroddiad yr Archwiliwr ar gyfrifon y Gymdeithas ar gyfer y cyfnod a drafodir yn y ffurflen flynyddol neu gopi o adroddiad tebyg arall (os oes un) sy'n ofynnol yn statudol ar gyfer y cyfnod; a
  - (b) Chopi o bob mantolen ar gyfer y cyfnod hwnnw ac adroddiad yr Archwiliwr neu berson priodol arall sy'n ofynnol yn statudol ar y fantolen honno.
111. Bydd y Gymdeithas ar gais yn cyflwyno copi am ddim o'r ffurflen flynyddol ddiweddaraf ynghyd â chopi o adroddiad yr Archwiliwr ar y cyfrifon a'r fantolen sy'n gynwysedig yn y ffurflen flynyddol ac Adroddiad yr Archwiliwr (os oes un) i unrhyw Aelod neu unrhyw berson sydd â diddordeb yng nghronfa'r Gymdeithas.
112. Bydd y Gymdeithas bob amser yn cadw copi o fantolen ddiweddaraf y Gymdeithas ynghyd â chopi o adroddiad cyfatebol yr Archwiliwr (os oes un) wedi'i ddangos mewn lle amlwg yn y swyddfa gofrestredig ac ar wefan y Gymdeithas (os oes un).

### **Archwiliad**

113. Oni bai fod y Gymdeithas yn bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 4(2) Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar a Diwydiannol a Darbodus 1968 neu'n bodloni'r eithriadau a nodir yn isadrannau 4(A) a (2) Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar a Diwydiannol a Darbodus 1968, bydd y Bwrdd yn penodi Archwiliwr bob blwyddyn ariannol yn ôl yr hyn sy'n ofynnol yn adran 7 Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar a Diwydiannol a Darbodus 1965 fel y diwygiwyd, i archwilio cyfrifon a mantolen y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn hefyd yn gymwys os yw'r Gymdeithas yn ei blwyddyn ariannol gyntaf.
114. Ni fydd y personau canlynol yn cael eu penodi'n Archwiliwr y Gymdeithas:
- (a) Swyddog neu Weithiwr y Gymdeithas;
  - (b) Person sy'n bartner neu'n weithiwr i Swyddog y Gymdeithas, neu'n ei gyflogi.
115. Gall y Bwrdd benodi Archwiliwr i lenwi swydd wag dros dro sy'n digwydd rhwng cyfarfodydd cyffredinol.
116. Bydd Archwiliwr ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol yn cael ei ailbenodi'n Archwiliwr y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn ariannol gyffredol oni bai:
- (a) Y gwnaed penderfyniad gan y Bwrdd i benodi Archwiliwr gwahanol neu ei fod wedi penderfynu'n bendant na fydd ef/hi'n cael ei (h)ailbenodi; neu
  - (b) Ei f/bod ef/hi wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd yn nodi nad yw'n fodlon cael ei (h)ailbenodi; neu
  - (c) Nad yw ef/hi'n gymwys i gael ei b/phenodi'n Archwiliwr y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn ariannol gyffredol; neu

(d) Ei f/bod ef/hi wedi peidio â gweithredu'n Archwiliwr y Gymdeithas oherwydd diffyg gallu.

117. Ni fydd unrhyw gynnis arferol mewn cyfarfod cyffredinol y Gymdeithas i dynnu Archwiliwr o'i swydd neu i benodi person arall yn Archwiliwr yn weithredol hyd nes y rhoddir hysbysiad o'r cynnis arfaethedig i'r Gymdeithas o leiaf 28 diwrnod cyn y cyfarfod pan yr ystyrir y penderfyniad. Mae'n rhaid wedyn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd o'r penderfyniad i Aelodau'r Gymdeithas yn y ffordd a ragnodir yn y Rheolau hyn ac yn Ysgrifenedig i'r Archwiliwr/Archwilwyr.

### **Cyfrifeg ac Adrodd Cymdeithasol**

118. Yn ogystal ag unrhyw gyfrifon ariannol sy'n ofynnol gan y Ddeddf, gall Aelodau benderfynu gwneud cyfrif o weithgareddau'r Gymdeithas a fydd yn ymdrechu i fesur ei pherfformiad cymdeithasol ac amgylcheddol gan ddefnyddio unrhyw ddull yr ystyrir yn briodol gan yr Aelodau. Ar ôl cwblhau cyfrif o'r fath, bydd y Gymdeithas yn adrodd ar unrhyw ganfyddiadau i'w Haelodau a rhanddeiliaid eraill.

### **Indemniad ac Yswiriant**

119. Yn amodol ar y rheol ganlynol, gellir indemnio unrhyw Gyfarwyddwr neu gyn Gyfarwyddwr y Gymdeithas allan o asedau'r Gymdeithas yn erbyn:

(a) Unrhyw ddyled a gronnir gan y Gyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw ddiolfalwch, methiant, esgeulustod, neu dor-ymdiriedaeth o ran y Gymdeithas;

(b) Unrhyw ddyled a gronnir gan y Gyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad â gweithgareddau'r Gymdeithas fel ymdiriedolwr mewn cynllun pensiwn galwedigaethol;

(c) Unrhyw ddyled arall a gronnir gan y Gyfarwyddwr hwnnw fel Swyddog y Gymdeithas.

120. Nid yw'r rheol uchod yn awdurdodi unrhyw indemniad y byddai unrhyw ddarpariaeth y gyfraith yn ei wahardd neu ei annilysu.

121. Gall y Gyfarwyddwyr benderfynu prynu a chadw yswiriant, ar gost y Gymdeithas, er lles unrhyw Gyfarwyddwr neu gyn Gyfarwyddwr y Gymdeithas o ran unrhyw golled neu ddyled a achoswyd neu y gellir ei achosi gan Gyfarwyddwr o ran ei ddyletswyddau neu bwerau i'r Gymdeithas neu unrhyw gronfa pensiwn neu gynllun cyfranddaliadau gweithwyr y Gymdeithas.

<b>Llofnodion Aelodau Sefydlu</b>	<b>Enwau Llawn Aelodau Sefydlu mewn PRIFLYTHRENNAU (dim llythrennau cyntaf)</b>
1.	
2.	
3.	
<b>Llofnod yr Ysgrifennydd</b>	<b>Enw Llawn yr Ysgrifennydd mewn PRIFLYTHRENNAU (dim llythrennau cyntaf)</b>
1.	

- Wedi'i dderbyn fel model gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol 2011 v.1 -